

Rhif 365 – Barddoniaeth Bl 10 ac 11 – Twyll

Beirniad – Huw Dylan Jones

Derbyniwyd 14 o gerddi a rhaid dweud bod y safon yn dda a bod rhywbeth i'w ganmol ym mhob un. Hoffwn annog pob un o'r beirdd i ddal ati ac os na gyrhaeddoch y brig eleni dyfal donc pia hi! Roedd y testun yn un da a'r beirdd yn cyfeirio at dwyllo mewn perthynas, at hunan-dwyll, at dwyll ym myd natur ac at y canlyniadau difrifol all ddeillio o dwyllo. Roedd hi'n galonogol gweld cymaint o gerddi mewn mydr ac odl. Yn gyffredinol mae'n bwysig cofio nad yw barddoniaeth yn defnyddio gordd ond yn awgrymu mewn ffyrdd mwy cynnil sy'n rhoi cyfle i'r darllenydd ddefnyddio'i ddychymyg. Mae cywirdeb iaith hefyd yn bwysig.

Yn drydydd rhoddaf MELLT. Cerdd sydd wir yn stori fer yn cyfeirio at y math hynaf o dwyll efallai – twyll mewn perthynas. Mae yma ddweud cynnil, da sy'n llwyddo i greu darlun clir o'r emosiynau sydd ynghlwm â thwyll o'r fath.

Yn ail rhoddaf AWST. Cerdd sy'n perthyn i'r unfed ganrif ar hugain sy'n trafod y cyfryngau cymdeithasol, yn benodol Facebook. Cawn ddarlun trist o berson sydd a phedair mil namyn un o ffrindiau ar y cyfrwng ond twyll yw'r cyfan oherwydd rhith yw'r berthynas.

I'r brig eleni daw LILI WEN FACH. Hoffais y gerdd o'r darlleniad cyntaf a dyma'r gerdd roddodd y wefr fwyaf i mi. Mae'n cyfeirio at dwyll haul Chwefror yn denu yr egin o gynhesrwydd y gaeaf ond yna dychwel y rhew a'r egin yn gwywo. Cerdd sy'n gyfanwaith crwn, celfydd yn llawn o gymhariaethau gafaelgar drwyddi draw.